

Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group Minutes

7 December 2016

The second meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group

Attendees

Philip McDonnell, Chair
Brigitte Rowlands, West Glamorgan Commoners Association
Councillor Kevin Griffiths, Pontarddulais Town and Community Council
Councillor Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council
Councillor Robert Jones, Mawr Community Council
Councillor Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
Dean Howard, Highways & Transportation Street Works & Winter Service Manager, City and County of Swansea
Inspector Ralph Harris, South Wales Police
Kathryn Harries, UK Community Investment Officer, Innogy Renewables UK Ltd
Inspector Tim Hopkins, South Wales Police
Tim James, Construction Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd
Sarah Jones, Cadno Communications Ltd
Steffan Alun, simultaneous translator

1. Welcome and introductions

The chair welcomed the group. The group introduced themselves. The chair explained that a Welsh translator was present at the meeting and encouraged the use of Welsh.

2. Apologies

- Sergeant Philip Morris, South Wales Police was represented by Inspector Tim Hopkins.
- Mark Lewis, Innogy Renewables UK Ltd.

3. Minutes of previous meeting and matters arising

The chair asked group members to check the minutes for accuracy and approve the minutes.

- 3.1. One member of the group felt that the minute relating to bat roosts lacked some detail. The chair suggested a further discussion on the matter later in the meeting (see below).
- 3.2. The chair advised that the minutes should balance having enough detail whilst summarising the key points.
- 3.3. The group agreed that numbering of the minutes should be adopted in future to aid navigation.
- 3.4. A group member asked that the minute relating to security be amended slightly.
- 3.5. Subject to that amendment, the group agreed that the minutes were a true reflection of the inaugural CLG meeting and the minutes were signed off. The minutes will be translated into Welsh and both English and Welsh versions will be published on innogy's website.
- 3.6. The chair welcomed the second representative from Mawr.
- 3.7. The chair thanked Pontarddulais Community Council for hosting the meeting and booking the venue.

4. Community Investment Fund (CIF)

Kathryn Harries provided a comprehensive overview of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Investment Fund (CIF). Kathryn explained that all of innogy's wind farms and hydro plants have CIFs. CIFs

are very popular with communities, voluntary organisations and local authorities, especially in recent years as other funding is being cut.

4.1. Amount of funding available through the CIF

Kathryn clarified that the amount of funding that will be available each year that the wind farm is operational will be £240,000. The wind farm is expected to be operational for up to 25 years, and so the total fund over the life of the wind farm will be up to £6 million. Any funding that isn't awarded to projects in a given year will be rolled over to the following year.

4.2. Consultation on the CIF

In 2014, Swansea Council for Voluntary Service (SCVS) undertook a consultation on the CIF on behalf of innogy, which informed the thinking on the fund. Approximately 260 responses were received through this consultation and a further 26 responses were received from councillors. Kathryn circulated copies of SCVS's consultation and information leaflets relating to the community fund.

4.3. How funding decisions will be made

- The next step will be for innogy to recruit an independent administrator to oversee the administration of the fund. Innogy has clear policies in place for administering CIFs and innogy will work with the administrator to clarify the detail of how the fund will be allocated, the criteria for awards etc. Kathryn suggested that when the administrator has been appointed that they attend this meeting to update the group on the CIF.
- The fund will be divided into two parts: local and Swansea-wide. At the heart is the local fund.
- A panel of local people will be recruited to make decisions about awards from the local fund. The panel will assess applications to the fund and decide how the funding is allocated.
- Innogy is keen that the fund is flexible so it can meet the needs of local communities.
- There is no strict ratio regarding how much funding is allocated for local projects and how much for Swansea-wide projects.
- Some members of the group expressed concern that local groups may lose out to Swansea-wide groups, larger organisations and groups which are able to submit more professional bids. Kathryn explained that if there is low uptake from local groups, more will naturally be allocated to Swansea-wide projects. However innogy is very keen to ensure the local communities benefit and will support local groups to put in strong applications, for example providing training and support to write bids. Kathryn emphasised that the fund is flexible and in innogy's experience panels are particularly keen to see funds used to support communities close to the site and to ensure they are fairly treated. Kathryn is committed to working with the administrator to ensure that funding is particularly beneficial to the communities that closely neighbour the wind farm.
- Kathryn clarified that the process will be as straightforward as possible and that the level of detail required in bids would be proportionate to the level of funding being sought.
- It was suggested that applications are made to the CIF in stages, with areas local to the wind farm site having the opportunity to bid for funding before the wider community. It was felt that this could help to ensure that areas closest to the wind farm site benefit most from the CIF. This suggestion will be given serious consideration by innogy as innogy is committed to ensuring the communities closest to the site benefit significantly from the fund.

4.4. Q. Why isn't the fund ring fenced for local communities?

A. innogy does not split the funding into different pots, as the company's experience is that this can be restrictive and can limit the size of the projects that are funded, and the funds perform better when there is flexibility. innogy encourages people to work together on larger strategic projects that can impact positively across communities. The independent administrator will need to be supported by a strong, independent chair. In other areas of the UK, the CIF has been used to fund a development officer to support bids and projects. If a group has an idea for a large project they can apply for funding for a feasibility project.

4.5. Q. Will there be automatic granting of funding?

A. There is flexibility in the fund, and it can even support micro granting, and support projects on a rolling annual basis.

4.6. Q. When will the money be available?

A. The fund becomes available when the wind farm is fully operational. We anticipate that this will be at the end of 2018 so we should be ready to launch the CIF in about 18 months' time. People have time to develop proposals ready for the fund launch.

4.7. Q. How professional do bids need to be?

A. innogy will work with the administrator to achieve a good balance between needing applications to provide enough level of detail so that bids can be properly assessed, whilst not being too burdensome for smaller groups, who perhaps haven't had much experience of bidding for grants. The process will be proportionate, and help will be available to bidders where needed.

4.8. Q. The funding is not available until the wind farm is operational yet local communities will be impacted before then, during the construction phase. Is there an option to make a payment 'on account' in recognition of the disruption to local communities?

A. No, we don't have the structure in place to do that, or the budget. We want to set the tone for the CIF going ahead and be fair to everyone. We need to establish a transparent process for the allocation of the funds which we do not yet have in place.

4.9. Q. Is it feasible to ring fence money for one, two or three years for local, rather than Swansea-wide bids?

A. As long as local groups are submitting good applications, it's likely that the panel will ensure that the local community bids are prioritised in the first few years.

4.10. Q. What are the designated local areas?

A. Kathryn circulated the map of the area of benefit for the local part of the CIF. The 'Swansea-wide' fund area of benefit is the Swansea local authority area and does not include neighbouring local authorities. It was noted that as Mawr is the ward in which the wind farm is sited, this community should be an early beneficiary of the fund. Kathryn offered to meet separately with Mawr Community Council to provide extra support to help enable this community to prepare for the forthcoming fund, particularly as the Mawr Development Trust is unfortunately no longer operational. Kathryn encouraged people to speak to innogy about the fund if they have further questions.

5. Update from Tim James

5.1. Archaeological investigations have started at Bolgoed Uchaf conducted by Headland Archaeology and have been received by GGAT (Glamorgan-Gwent Archaeological Trust), on behalf of the Council.

5.2. Contracts:

- Enabling works contract. Negotiations are progressing and it's hoped that this will be in place before Christmas.
- Turbine contract. The turbine contract has recently been agreed. It is hoped to be announced before Christmas.

5.3. Tim has appointed Jenny Cowley as the Mynydd y Gwair Community Liaison Officer. Jenny has considerable experience and has been with the company for several years. She will assist with communications with local communities and be the interface between Tim, the contractors and local people. Jenny will attend the Community Liaison Group meetings.

5.4. Tim has recruited a resident engineer who will be on site, overseeing the contractors during the week.

5.5. An announcement on the appointment of the ecological clerk of works will be made very soon.

5.6. Tim reported that yesterday he and Jenny Cowley called with residents in Bolgoed Road to introduce themselves and provide an update on local work. It's thought that they spoke to people in around half of the houses. Tim and Jenny put letters with Jenny's contact details through the doors of the remaining homes. They also explained about the Community Liaison Group's role.

5.7. Condition 31 relating to surface water drainage has now been discharged. Tim recently met with the Council's drainage engineer who confirmed that the drainage design is robust. A member of the group noted concern about surface water coming down from the site.

- 5.8. Tim explained the scheme is designed for a 1 in every 100 year event, rather than the standard 1 in every 30 year event, meaning that it has been designed to a higher specification than is required.
- 5.9. Innogy has placed orders with Western Power Distribution (WPD) and BT for service diversions. It is WPD and BT's responsibility to inform local people of any service disruption and provide the statutory notice periods informing local people of any works being carried out.
- 5.10. Tim clarified the situation regarding bats. In September all of the trees affected by the works were surveyed for bats. None of the trees affected by the works were found to have bat roosts in them. Innogy is aware of a well-known noctule bat roost in a tree in Bolgoed Uchaf. This tree will not be affected by works. Innogy will resurvey the trees before they are felled and there will be an ecologist on site when the trees are felled.
- 5.11. A local resident has expressed concerns that there is a bat roost in a tree that is to be felled and has provided video evidence of this. This video evidence was considered by both Innogy's and the local authority's ecologists and they concluded that the bat roost in the video is the one originally identified in the existing bat survey. For clarity, Tim explained that this bat roost was not in a tree close to the works, nor was it a tree earmarked for felling. He further explained that the roost was of noctule bats and not pipistrelle bats as had been claimed by the concerned local resident. Discussions on this matter are ongoing.
- 5.12. Tim clarified that a property on Bolgoed Road which is owned by Innogy is not to be used as a site office, as some people have suggested. The current tenant is vacating the property and Innogy intend to re-let it. He also clarified that machinery will not be stored on the opposite side of the road. If the contractor wishes to put temporary welfare cabins in the nearby layby, they would need to apply to the local authority for permission to do this.
- 5.13. **Q. Water is flowing out of the field via the agricultural track onto the road. There are concerns about this and about it freezing in winter.**
 A. Innogy is aware of this water. The water has been coming out of the field for a long time and it pre-dates Innogy being on site. The contractor will establish temporary water control until the permanent works are complete. The permanent design will ensure that surface water is contained within the site.
- 5.14. **Q. What security will be put in place during construction?**
 A. The working area will be fenced and gated at regular intervals. The site will be secured out of working hours. During working hours it will be staffed by security staff [Tim indicated the areas on the map.]
- 5.15. **Q. People living near the old mine are concerned about the potential impact on them, they are in an inaccessible area and when the road is closed they will have no way out of the site.**
 A. When contractors are working in the area, it is a requirement of their contract to facilitate access for local residents. Innogy will arrange for their Community Liaison contact to visit local residents to explain the access arrangements.
- 5.16. **Q. Will work commence before our next meeting?**
 A. Innogy expect that work will start in January. Tim will notify the group when it is due to start. Tim intends to begin writing a blog in the next few weeks, which will provide a regular update on project progress. This will be available on the Innogy website.
- 5.17. **Q. Can we share the group's email addresses amongst the group?**
 A. Sarah is confirming with the group members that they are happy for their email addresses to be shared, then she will circulate the contact details.
- 5.18. **Q. Are all of the planning conditions now discharged?**
 A. Three conditions are outstanding. All are pre-commencement planning conditions and as such they must be discharged before any work can begin:
 - Condition 16 relating to species management will be discharged before Innogy starts construction.
 - Condition 29 relating to the appointment of an ecological clerk of works is being discharged imminently.

- Condition 33 relating to commons fencing will be discharged in the next few days.

6. AOB

None.

7. Next meeting

The next meeting will be held at 6pm Thursday 19 January 2017.

Cofnodion Grŵp Cyswilt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair

7 Rhagfyr 2016

Ail gyfarfod Grŵp Cyswilt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair

Yn bresennol

Philip McDonnell, Cadeirydd
Brigitte Rowlands, Cymdeithas Cominywr Gorllewin Morgannwg
Y Cynghorydd Kevin Griffiths, Cyngor Tref a Chymuned Pontarddulais
Y Cynghorydd Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Y Cynghorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
Y Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer
Dean Howard, Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Gwaith Stryd a Gwasanaeth Gaeaf, Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Yr Arolygydd Ralph Harris, Heddlu De Cymru
Kathryn Harries, Swyddog Buddsoddiadau Cymunedol y DU, Innogy Renewables UK Ltd
Yr Arolygydd Tim Hopkins, Heddlu De Cymru
Tim James, Rheolwr Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd
Sarah Jones, Cadno Communications Ltd
Steffan Alun, cyfieithu ar y pryd

8. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y cadeirydd aelodau'r grŵp i'r cyfarfod. Cyflwynodd yr aelodau eu hunain. Eglurodd y cadeirydd fod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol yn y cyfarfod ac anogodd yr aelodau i siarad yn Gymraeg.

9. Ymddiheuriadau

- Roedd y Rhingyll Philip Morris, Heddlu De Cymru, yn cael ei gynrychioli gan yr Arolygydd Tim Hopkins.
- Mark Lewis, Innogy Renewables UK Ltd.

10. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Gofynnodd y cadeirydd i aelodau'r grŵp wirio'r cofnodion i sicrhau eu bod yn gywir ac i'w cymeradwyo.

- 10.1. Roedd un aelod yn teimlo bod prinder manylion yn y cofnod yn ymwneud â chlwydfannau ystumod. Awgrymodd y cadeirydd drafodaeth bellach ar y mater yn ddiweddarach yn y cyfarfod (gweler isod).
- 10.2. Dywedodd y dylid cadw cydbwysedd yn y cofnodion rhwng cael digon o fanylion tra'n gweithredu fel crynodeb o'r pwyntiau trafod.
- 10.3. Cytunodd y grŵp y dylid rhifo'r cofnodion er mwyn ei gwneud yn haws i ddod o hyd i eitemau yn y dyfodol.
- 10.4. Gofynnodd aelod o'r grŵp am newid bychan i'r cofnod yn ymwneud â diogelwch.
- 10.5. Yn amodol ar y newid hwnnw, cytunodd y grŵp fod y cofnodion yn gofnod cywir o gyfarfod cyntaf y Grŵp a chafodd y cofnodion eu derbyn. Bydd y cofnodion yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg a bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wefan innogy.
- 10.6. Croesawodd y cadeirydd yr ail gynrychiolydd o Gyngor Cymuned Mawr.
- 10.7. Diolchodd y cadeirydd i Gyngor Cymuned Pontarddulais am gynnal y cyfarfod ac am drefnu'r lleoliad.

11. Y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol (CIF)

Cafwyd trosolwg cynhwysfawr gan Kathryn Harries o Gronfa Fuddsoddi Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair (CIF). Eglurodd Kathryn fod gan bob un o ffermydd gwynt a gorsafoedd ynni dŵr innogy gronfa o'r fath. Mae'r Cronfeydd yn boblogaidd ymhlith cymunedau, mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau lleol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod cyllid o ffynonellau eraill yn cael ei dorri.

11.1. Y cyllid a fydd ar gael trwy'r Gronfa

Dywedodd Kathryn mai'r swm a fydd ar gael bob blwyddyn tra bydd y fferm wynt yn weithredol fydd £240,000. Disgwylir y bydd y fferm wynt yn weithredol am hyd at 25 mlynedd, ac felly bydd cyfanswm yr arian yn ystod oes y fferm wynt hyd ar £6 miliwn. Bydd unrhyw arian na fydd yn cael ei ddyrannu i brosiectau mewn un flwyddyn yn cael ei gario trosodd i'r flwyddyn ganlynol.

11.2. Ymgynghori ar y CIF

Yn 2014, cynhaliodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) ymarferiad ymgynghori ar y Gronfa ar ran innogy, a oedd yn sail i redeg y gronfa. Cafwyd tua 260 o ymatebion yn sgil yr ymgynghoriad a chafwyd 26 o ymatebion eraill gan Gynghorwyr. Dosbarthodd Kathryn gopiâu o ymgynghoriad SCVS a thafleddi gwybodaeth am y gronfa gymunedol.

11.3. Sut y bydd penderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud

- Y cam nesaf i innogy fydd recriwtio gweinyddwr annibynnol i oruchwylio'r gwaith o weinyddu'r gronfa. Mae gan innogy bolisiâu pendant ar gyfer gweinyddu cronfeydd o'r fath a bydd innogy yn gweithio â'r gweinyddwr i egluro'r manylion ar sut y bydd arian y gronfa'n cael ei ddyrannu, y meini prawf ar gyfer dyfarnu ac ati. Awgrymodd Kathryn pan fydd y gweinyddwr wedi'i benodi ei fod yn dod i'r cyfarfod hwn i ddiweddarar yr grŵp ar y gronfa.
- Bydd y gronfa'n cael ei rhannu'n ddwy ran; lleol ac Abertawe gyfan. Mae'r gronfa leol yn ganolog i'r cynllun.
- Bydd panel o bobl leol yn cael ei recriwtio i wneud penderfyniadau ar grantiau o'r gronfa leol. Bydd y panel yn asesu ceisiadau i'r gronfa ac yn penderfynu sut y bydd yr arian yn cael ei ddyrannu.
- Mae innogy yn awyddus bod y gronfa'n un hyblyg fel y gall ddiwallu anghenion cymunedau lleol.
- Nid oes cymhareb bendant ynglŷn â faint o arian fydd yn cael ei ddyrannu i brosiectau lleol a faint i brosiectau Abertawe gyfan.
- Mynegodd rai aelodau bryderon y gall grwpiau lleol fod ar eu colled i grwpiau a mudiadau Abertawe gyfan, mwy, a fydd yn gallu paratoi ceisiadau mwy proffesiynol. Eglurodd Kathryn os na cheir llawer o geisiadau gan grwpiau lleol, ei bod yn naturiol y bydd mwy'n cael ei ddyrannu i brosiectau Abertawe gyfan. Fodd bynnag, mae innogy yn awyddus iawn i sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa a bydd yn helpu grwpiau lleol i baratoi ceisiadau cryf; er enghraifft, gellir darparu hyfforddiant a chymorth i ysgrifennu ceisiadau. Pwysleisiodd Kathryn fod y gronfa'n un hyblyg ac ym mhrofiad innogy mae panelau'n awyddus iawn i weld yr arian yn cael ei ddefnyddio i helpu cymunedau sy'n agos at y safle ac i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg. Mae Kathryn wedi ymrwymo i gydweithio â'r gweinyddwr i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio er budd y cymunedau sy'n agos at y fferm wynt.
- Dywedodd Kathryn y bydd y broses yn un mor syml â phosibl ac y bydd lefel y manylion y bydd eu hangen mewn ceisiadau yn gymesur i faint y grant y gofynnir amdano.
- Awgrymwyd fod ceisiadau i'r gronfa'n cael eu gwneud fesul cam, gydag ardaloedd sy'n agos at safle'r fferm wynt yn cael cyfle i gyflwyno cais am arian cyn y gymuned ehangach. Y farn oedd y byddai hyn yn helpu i sicrhau mai'r ardaloedd sydd agosaf at y fferm wynt fyddai'n elwa fwyaf ar y Gronfa. Bydd yr awgrym hwn yn cael ei ystyried yn ofalus gan innogy gan fod y cwmni wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ardaloedd sydd agosaf ar y safle'n elwa'n sylweddol ar y gronfa.

11.4. **C. Pam nad yw'r gronfa'n cael ei chyfyngu i gymunedau lleol?**

A. Nid yw innogy yn rhannu'r arian yn gronfeydd gwahanol, gan fod profiad y cwmni wedi dangos bod hyn yn gallu bod yn gyfyngol a'i fod yn gallu cyfyngu ar faint y brosiectau sy'n cael eu hariannu, a bod y cronfeydd yn perfformio'n well os oes digon o hyblygrwydd. Mae innogy yn annog pobl i

gydweithio ar brosiectau strategol mwy sy'n gallu cael effaith bositif ar sawl cymuned. Bydd angen cymorth cadeirydd cryf ac annibynnol ar y gweinyddwr annibynnol. Mewn rhannau eraill o'r DU, mae'r CIF wedi cael ei defnyddio i gyflogi swyddog datblygu i helpu ceisiadau a phrosiectau. Os oes gan unrhyw grŵp syniad ar gyfer prosiect mawr yna gallant wneud cais am arian i gynnal prosiect hyfywedd.

11.5. C. A fydd cyllid yn cael ei ddyfarnu'n awtomatig?

A. Mae elfen o hyblygrwydd yn y gronfa, a gall hyd yn oed ddyfarnu grantiau micro, a chefnogi prosiectau ar delerau treigl.

11.6. C. Pa bryd fydd yr arian ar gael?

A. Bydd y gronfa ar gael pan fydd y fferm wynt wedi dechrau gweithredu. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ddiwedd 2018 felly dylem fod yn barod i lansio'r CIF mewn tua 18 mis. Mae hynny'n golygu bod gan bobl amser i ddatblygu cynigion yn barod erbyn lansio'r gronfa.

11.7. C. Pa mor broffesiynol fydd angen i geisiadau fod?

A. Bydd innogy yn gweithio â'r gweinyddwr i sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i geisiadau gynnwys digon o fanylion i allu asesu'r ceisiadau'n ddigon trylwyr, ond heb fod yn rhy feichus i grwpiau bach, sydd efallai heb lawer o brofiad o baratoi ceisiadau am grantiau. Bydd y broses yn un gymesur, a bydd help ar gael i'r ymgeiswyr os bydd angen.

11.8. C. Ni fydd grantiau ar gael nes bydd y fferm wynt yn weithredol, ond eto bydd y prosiect yn effeithio ar gymunedau lleol cyn hynny, yn ystod y cyfnod adeiladu. A oes opsiwn i wneud taliadau 'ar gyfrif' i gydnabod yr aflonyddwch ar gymunedau lleol?

A. Nac oes, nid oes trefniadau ar waith, na'r gyllideb, i wneud hynny. Rydym yn awyddus i amlinellu'r trefniadau ar gyfer y gronfa at y dyfodol er mwyn bod yn deg â phawb. Mae angen proses dryloyw i ddyrannu'r arian ac nid yw honno wedi'i chyflwyno eto.

11.9. C. A oes modd neilltuo arian ar gyfer y flwyddyn, neu'r ddwy neu dair blynedd gyntaf ar gyfer prosiectau lleol, yn hytrach na rhai Abertawe gyfan?

A. Cyhyd ag y bydd grwpiau lleol yn cyflwyno ceisiadau da, mae'n debygol y bydd y panel yn sicrhau bod ceisiadau o'r gymuned leol yn cael blaenoriaeth am yr ychydig flynyddoedd cyntaf.

11.10. C. Pa ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel rhai lleol?

A. Rhannodd Kathryn y map o'r ardal a fydd yn elwa fel ardal leol y CIF. Yr ardal 'Abertawe gyfan' a fydd yn elwa o dan y gronfa yw ardal awdurdod lleol Abertawe ac nid yw'n cynnwys awdurdodau lleol cyfagos. Gan mai Mawr yw'r ward lle mae'r fferm wynt wedi'i lleoli, dywedwyd y dylai'r ardal hon fod yn fuddiolwr cynnar. Cynigiodd Kathryn gwrdd ar wahân â Chyngor Cymuned Mawr i gynnig cymorth ychwanegol i helpu'r gymuned hon i baratoi ar gyfer y gronfa arfaethedig, yn enwedig gan nad Ymddiriedolaeth Datblygu Mawr yn anffodus bellach yn weithredol. Anogodd Kathryn bobl i siarad ag innogy am y gronfa os oeddent yn teimlo bod ganddynt ragor o gwestiynau.

12. Diweddariad gan Tim James

12.1. Mae ymchwiliadau archeolegol wedi cychwyn ym Molgoed Uchaf o dan ofal Headland Archaeology ac maent wedi cael eu derbyn gan GGAT (Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent), ar ran y Cyngor.

12.2. Contractau:

- Contract gwaith galluogi. Mae negodiadau'n parhau a'r gobaith yw y byddant wedi'u cwblhau cyn y Nadolig.
- Contract y tyrbin contract. Cytunwyd ar gontract y tyrbin yn ddiweddar. Gobeithir y bydd cyhoeddiad cyn y Nadolig.

12.3. Mae Tim wedi penodi Jenny Cowley fel Swyddog Cyswllt Cymunedol Mynydd y Gwair. Mae Jenny yn brofiadol iawn ac mae wedi bod gyda'r cwmni am nifer o flynyddoedd. Bydd yn cynorthwyo i gysylltu â chymunedau lleol a hi fydd y ddolen gyswllt rhwng Tim, y contractwyr a phobl leol. Bydd Jenny yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol.

12.4. Mae Tim wedi recriwtio peiriannydd preswyl a fydd ar y safle, yn goruchwyllo'r contractwyr yn ystod yr wythnos.

- 12.5. Disgwylir cyhoeddiad ar benodiad clerc gwaith ecolegol cyn hir.
- 12.6. Dywedodd Tim ei fod ef a Jenny Cowley wedi galw i weld trigolion Ffordd Bolgoed y diwrnod cynt i gyflwyno'u hunain ac i'w diweddarau ar waith lleol. Credir eu bod wedi cael gair â phobl mewn tua hanner y tai. Gadawodd Tim a Jenny lythyrau yn cynnwys manylion cyswllt Jenny yn y tai eraill. Roeddent hefyd yn egluro rôl y Grŵp Cyswllt Cymunedol.
- 12.7. Mae Amod 31 sy'n ymwneud â draenio dŵr wyneb bellach wedi'i gyflawni. Cyfarfu Tim yn ddiweddar â pheiriannydd draenio'r Cyngor a gadarnhaodd fod dyluniad y draenio'n awr yn gadarn. Nododd aelod o'r grŵp bryder am ddŵr wyneb yn dod i lawr o'r safle.
- 12.8. Eglurodd Tim fod y cynllun wedi'i ddylunio ar gyfer digwyddiadau unwaith pob 100 mlynedd, yn hytrach na digwyddiadau unwaith pob 30 mlynedd fel sy'n arferol, sy'n golygu ei fod wedi'i ddylunio'n ôl manylebau uwch na'r hyn sy'n ofynnol.
- 12.9. Mae innogy wedi archebu dargyfeiriadau gwasanaeth â Western Power Distribution (WPD) a BT. Bydd WPD a BT yn gyfrifol am hysbysu pobl leol o unrhyw doriad yn y gwasanaeth ac am sicrhau cyfnodau o rybudd statudol sy'n rhoi gwybod i bobl leol am unrhyw waith sy'n cael ei wneud.
- 12.10. Eglurodd Tim y sefyllfa gyda'r ystlumod. Ym mis Medi cafodd rhai o'r coed a fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaith eu harolygu am ystlumod. Gwelwyd nad oedd dim o'r coed a effeithir yn cael eu defnyddio fel clwydfannau gan ystlumod. Mae innogy yn ymwybodol o glwydfan ystlumod mawr nodedig mewn coeden ym Molgoed Uchaf. Ni fydd y goeden hon yn cael ei heffeithio gan y gwaith. Bydd innogy yn cynnal arolwg arall cyn torri'r coed a bydd ecolegydd ar y safle pan fydd y coed yn cael eu dymchwel.
- 12.11. Mae preswlydd lleol wedi mynegi pryderon bod clwydfan mewn coeden sydd i gael ei thorri ac mae wedi cyflwyno tystiolaeth fideo i ddangos hynny. Mae innogy ac ecolegwyr yr awdurdod lleol wedi ystyried y dystiolaeth fideo ac maent wedi dod i'r casgliad mai'r glwydfan ystlumod yn y fideo yw'r un a welwyd yn yr arolwg ystlumod gwreiddiol. Wrth egluro, dywedodd Tim nad oedd y glwydfan hon mewn coeden sy'n agos at y gwaith, na bod y goeden wedi'i chlustnodi i gael ei dymchwel. Aeth yn ei flaen i ddweud bod y glwydfan yn un a ddefnyddir gan ystlumod mawr ac nid ystlumod lleiaf fel yr oedd y preswlydd wedi'i honni. Mae trafodaethau ar y mater yn parhau.
- 12.12. Dywedodd Tim na fydd eiddo ar Ffordd Bolgoed y mae innogy yn berchen arno'n cael ei ddefnyddio fel swyddfa ar gyfer y safle, fel yr oedd rhai pobl wedi'i awgrymu. Mae'r tenant presennol yn gadael yr eiddo ac mae innogy yn bwriadu ei ailosod. Dywedodd hefyd na fydd peiriannau'n cael eu storio ar ochr gyferbyn y ffordd. Os bydd y contractwr yn dymuno rhoi cabanau lles dros dro yn y gilfan gyfagos, bydd yn rhaid iddo wneud cais am ganiatâd i'r awdurdod lleol.
- 12.13. **C. Mae dŵr yn llifo allan o'r cae trwy'r llwybr amaethyddol ac ar y ffordd. Mae rhai'n pryderu am hyn a'r perygl y bydd yn rhewi yn y gaeaf.**
A. Mae innogy yn ymwybodol o'r dŵr dan sylw. Mae'r dŵr wedi bod yn llifo o'r cae ers amser hir a chyn i innogy gyrraedd y safle. Bydd y contractwr yn cyflwyno mesurau rheoli dŵr dros dro nes bydd gwaith parhaol wedi'i gwblhau. Bydd y dyluniad parhaol yn sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei gadw ar y safle.
- 12.14. **C. Pa fesurau diogelwch fydd ar waith yn ystod y gwaith adeiladu?**
A. Bydd y man gweithio'n cael ei amgylchynu gan ffens gyda giatiau ar adegau rheolaidd. Bydd y safle'n cael ei ddiogelu y tu allan i oriau gwaith. Yn ystod oriau gwaith bydd yn cael ei staffio gan staff diogelwch [dangosodd Tim y manau hyn ar y map].
- 12.15. **C. Mae pobl sy'n byw'n agos at yr hen bwll yn bryderus am yr effeithiau posibl arnynt, maent mewn man anhygyrch a phan fydd y ffordd ar gau ni fydd ffordd allan o'r safle.**
A. Pan fydd contractwyr yn gweithio yn yr ardal, mae gofyniad yn eu contract i hwyluso mynediad i breswylwyr lleol. Bydd innogy yn trefnu bod person Cyswllt Cymunedol yn ymweld â phreswylwyr lleol i egluro'r trefniadau mynediad.
- 12.16. **C. A fydd y gwaith yn cychwyn cyn ein cyfarfod nesaf?**
A. Mae innogy yn disgwyl y bydd y gwaith yn cychwyn ym mis Ionawr. Bydd Tim yn hysbysu'r grŵp i roi gwybod pa bryd y bwriedir dechrau gweithio. Mae Tim yn bwriadu dechrau ysgrifennu blog yn

ystod yr wythnosau nesaf, a fydd yn diweddarau pawb yn rheolaidd am y cynnydd. Bydd y blog ar gael ar wefan innogy.

12.17. C. A allwn ni rannu cyfeiriadau e-bost y grŵp ymhlith y grŵp?

A. Mae Sarah am gael cadarnhad gan aelodau'r grŵp eu bod yn hapus i'w cyfeiriadau e-bost gael eu rhannu, a bydd wedyn yn rhannu'r manylion cyswllt.

12.18. C. A yw'r holl amodau cynllunio wedi'u cyflawni?

A. Mae tair amod yn aros o hyd. Maent i gyd yn amodau cynllunio cyn cychwyn ac felly rhaid eu sicrhau cyn y gall unrhyw waith ddechrau:

- Bydd Amod 16 sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau yn cael ei gyflawni cyn i innogy ddechrau adeiladu.
- Bydd Amod 29 sy'n ymwneud â phenodi clerc gwaith ecolegol yn cael ei gyflawni'n fuan.
- Bydd Amod 33 sy'n ymwneud â ffensys ar y tir comin yn cael ei gyflawni yn ystod y dyddiau nesaf.

13. Unrhyw fater arall

Dim.

14. Y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6pm nos Iau 19 Ionawr 2017.